OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 588 (Cy.67)

TRETH GYNGOR, CYMRU

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - - 12 Mawrth 2013

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 14A, 14B, 14C ac 113(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**1**).

Yn unol ag adran 14D(3) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darganfod Twyll a Gorfodi) (Cymru) 2013.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

(3) Mae rheoliadau 7 a 9 yn dod i rym 14 diwrnod ar ôl y diwrnod y gwneir y Rheoliadau hyn.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cais" ("*application*") yw cais am ostyngiad o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor;

ystyr "y Cynllun Diofyn" ("*the Default Scheme*") yw'r cynllun a nodir yn yr Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2012(**2**);

ystyr "cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor" ("*council tax reduction scheme*") yw cynllun a wnaed gan awdurdod bilio yn unol â'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig neu gynllun sy'n gymwys yn ddiofyn yn unol â pharagraff 6(1)(e) o Atodlen 1B i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

(**1**) 1992 p.14; mewnosodwyd adrannau 14A, 14B a 14C gan adran 14 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012 p.17; diwygiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 113 gan adran 127 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 p.26 a pharagraffau 40 a 52 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 80 o Ddeddf Lleoliaeth 2011(p.20.

(**2**) O.S. 2012/3145 (Cy. 317).

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

ystyr "y Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau" ("*the Contributions and Benefits Act*") yw Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**3**);

ystyr "y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig" ("*the Prescribed Requirements Regulations*") yw Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2012(**4**);

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw person sy'n gweithredu yn unol ag unrhyw awdurdodiad at ddibenion y Rheoliadau hyn sydd am y tro mewn grym mewn perthynas â'r person hwnnw;

ystyr "trosedd treth gyngor" ("*council tax offence*") yw—

(a) unrhyw drosedd mewn cysylltiad â gwneud cais;

(b) unrhyw drosedd mewn cysylltiad â dyfarnu gostyngiad o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor;

(c) unrhyw drosedd a gyflawnir at y diben o hwyluso cyflawni trosedd (boed hynny gan yr un person ai peidio) o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b);

(d) unrhyw ymgais neu gynllwyn i gyflawni trosedd o'r math y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) neu (b).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) mae cyfeiriadau at ddogfen yn cynnwys cyfeiriadau at unrhyw beth y cofnodir gwybodaeth ynddo, mewn ffurf electronig neu unrhyw ffurf arall;

(b) rhaid ystyried bod y gofyniad bod swyddog awdurdodedig yn rhoi hysbysiad mewn ysgrifen wedi ei gyflawni mewn unrhyw achos pan fo'r hyn sy'n gynwysedig yn yr hysbysiad—

(i) wedi ei drawsyrru i dderbynnydd yr hysbysiad drwy ddull electronig; a

(ii) wedi ei gael gan y derbynnydd mewn ffurf sy'n ddarllenadwy ac y gellir ei gofnodi ar gyfer cyfeirio ato yn y dyfodol.

Awdurdodiadau gan awdurdodau bilio

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff awdurdod bilio roi awdurdodiad i unigolyn i arfer y pwerau a roddir i swyddog awdurdodedig o dan reoliadau 4 a 5.

(2) Ni chaiff awdurdod bilio roi awdurdodiad i unigolyn onid yw'r unigolyn hwnnw—

(a) wedi ei gyflogi i arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor gan yr awdurdod hwnnw;

(b) wedi ei gyflogi i arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor gan awdurdod bilio arall neu gyd-bwyllgor sy'n cyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor ar ran yr awdurdod hwnnw; neu

(c) wedi ei gyflogi i arfer swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor gan berson a awdurdodwyd o dan Orchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Allan o Swyddogaethau Bilio, Casglu a Gorfodi'r Dreth) 1996(**5**) gan—

(i) yr awdurdod dan sylw; neu

(ii) unrhyw awdurdod o'r math a grybwyllir yn is-baragraff (b).

(3) O ran awdurdodiad a roddir i unigolyn at ddibenion y Rheoliadau hyn—

(**3**) 1992 p.4.
(**4**) O.S. 2012/3144 (Cy. 316).
(**5**) O.S. 1996/1880 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/502.

(a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen ac wedi ei ddarparu i'r unigolyn hwnnw fel tystiolaeth o hawl yr unigolyn hwnnw i arfer pwerau a roddir o dan y Rheoliadau hyn;

(b) caiff gynnwys darpariaeth ynglŷn â'r cyfnod y bydd yr awdurdodiad yn cael effaith; ac

(c) caiff gyfyngu ar y pwerau sy'n arferadwy yn rhinwedd yr awdurdodiad, drwy wahardd eu harfer ac eithrio ar gyfer dibenion penodol neu mewn amgylchiadau penodol.

(4) Ceir tynnu awdurdodiad yn ôl ar unrhyw adeg, mewn ysgrifen gan yr awdurdod a'i rhoddodd.

(5) Rhaid i awdurdodiad ysgrifenedig, neu dynnu'n ôl awdurdodiad ysgrifenedig, gan awdurdod bilio gael ei ddyroddi o dan lofnod naill ai—

(a) y swyddog a ddynodwyd o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**6**) fel pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod; neu

(b) y swyddog sy'n brif swyddog cyllid yr awdurdod (yn yr ystyr a roddir i "chief finance officer" yn adran 5(8) o'r Ddeddf honno).

(6) Nid oes hawl gan unigolyn, a awdurdodir at ddibenion rheoliad 4, i arfer y pwerau a roddir gan y rheoliad hwnnw, ac eithrio at y diben o atal, darganfod a sicrhau tystiolaeth ynghylch cyflawni trosedd treth gyngor (boed hynny gan bersonau penodol neu'n fwy cyffredinol).

(7) Nid oes hawl gan swyddog awdurdodedig i gael gwybodaeth yn unol â threfniadau yr ymunir ynddynt o dan reoliad 5 oni fydd awdurdodiad y swyddog hwnnw'n datgan bod ei awdurdodiad yn gymwys at ddibenion y rheoliad hwnnw.

(8) Nid oes dim yn y rheoliad hwn, wrth roi unrhyw bŵer i swyddog awdurdodedig, sydd yn ei gwneud yn ofynnol i beidio ag arfer y pŵer hwnnw ac eithrio mewn achosion pan weinyddir y cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor gan yr un awdurdod a roddodd ei awdurdodiad i'r swyddog hwnnw.

Pŵer i wneud darparu gwybodaeth yn ofynnol

4.—(1) Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (2), caiff swyddog awdurdodedig, drwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol bod person yn darparu'r cyfan o'r cyfryw wybodaeth a ddisgrifir yn yr hysbysiad ac sydd ym meddiant y person hwnnw neu'n wybodaeth y mae gan y person hwnnw fynediad ati ac y mae'n rhesymol i'r swyddog awdurdodedig ofyn amdani at y diben a ddisgrifir yn rheoliad 3(6).

(2) Yr amgylchiadau yw bod gan y swyddog awdurdodedig sail resymol dros amau bod y person—

(a) yn berson sy'n dod o fewn paragraff (3) neu (4); a

(b) bod ganddo, neu y gall fod ganddo yn ei feddiant, neu fod ganddo fynediad at, unrhyw wybodaeth am unrhyw fater sy'n berthnasol i'r diben a ddisgrifir yn rheoliad 3(6).

(3) Y personau sy'n dod o fewn y paragraff hwn yw—

(a) unrhyw berson sydd, neu sydd wedi bod, yn gyflogwr neu'n gyflogai, yn yr ystyron a roddir i "employer" neu "employee", yn eu trefn, mewn unrhyw ddarpariaeth a wneir gan, neu o dan, y Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau;

(b) unrhyw berson sydd, neu sydd wedi bod, yn enillydd hunangyflogedig yn yr ystyr a roddir i "self-employed earner" mewn unrhyw ddarpariaeth o'r fath;

(c) unrhyw berson, yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan neu o dan y Ddeddf honno, sydd neu a oedd yn berson sydd i'w drin at ddibenion unrhyw ddarpariaeth o'r fath fel person o fewn is-baragraff (a) neu (b);

(**6**) 1989 p.42. Gwnaed diwygiadau i adran 4 ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(d) unrhyw berson sy'n cynnal, neu a fu'n cynnal, unrhyw fusnes sy'n cynnwys cyflenwi nwyddau ar gyfer eu gwerthu i'r defnyddwyr olaf gan unigolion nad ydynt yn cynnal busnesau manwerthu o fangreoedd manwerthu;

(e) unrhyw berson sy'n cynnal, neu a fu'n cynnal, unrhyw fusnes sy'n cynnwys cyflenwi nwyddau neu wasanaethau drwy ddefnyddio gwaith a wneir neu wasanaethau a gyflawnir gan bersonau ac eithrio cyflogeion y person hwnnw;

(f) unrhyw berson sy'n cynnal, neu a fu'n cynnal, asiantaeth neu fusnes arall ar gyfer cyflwyno neu gyflenwi, i bersonau sy'n gofyn amdanynt, bersonau sydd ar gael i wneud gwaith neu gyflawni gwasanaethau;

(g) unrhyw awdurdod lleol sy'n gweithredu yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod sy'n gyfrifol am roi unrhyw drwydded;

(h) unrhyw berson sydd, neu a fu, yn ymddiriedolwr neu'n rheolwr cynllun pensiwn personol neu alwedigaethol;

(i) gweision ac asiantwyr unrhyw un o'r personau a bennir mewn unrhyw un o'r is-baragraffau (a) i (h).

(4) Y personau sy'n dod o fewn y paragraff hwn yw—

(a) unrhyw fanc;

(b) y Cyfarwyddwr Cynilion a benodir o dan adran 1(1) o Ddeddf y Ddyled Wladol 1972(**7**);

(c) unrhyw berson sy'n cynnal busnes y mae'r cyfan neu ran sylweddol ohono yn cynnwys darparu credyd (boed sicredig neu ansicredig) i aelodau o'r cyhoedd;

(d) unrhyw yswiriwr;

(e) unrhyw berson sy'n cynnal busnes y mae'r cyfan neu ran sylweddol ohono yn cynnwys darparu i aelodau o'r cyhoedd wasanaeth ar gyfer trosglwyddo arian o le i le;

(f) unrhyw ymgymerwr dŵr neu ymgymerwr carthffosiaeth;

(g) unrhyw berson sy'n ddeiliad—

(i) trwydded o dan adran 7 o Ddeddf Nwy 1986(**8**) i gludo nwy drwy bibellau, neu

(ii) trwydded o dan adran 7A(1) o'r Ddeddf honno(**9**) i gyflenwi nwy drwy bibellau;

(h) unrhyw berson sy'n dosbarthu neu'n cyflenwi trydan (o fewn yr ystyron a roddir i "distribute" a "supply", yn eu trefn, yn Neddf Trydan 1989(**10**));

(i) unrhyw berson sy'n cynnal unrhyw gorff neu sefydliad addysgol;

(j) unrhyw gorff y mae darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â derbyniadau i gyrff neu sefydliadau addysgol yn brif weithgaredd iddo;

(k) y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr;

(l) unrhyw was neu asiant i berson a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (k).

(5) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, mae'r pwerau a roddir gan y rheoliad hwn i swyddog awdurdodedig, i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu gwybodaeth, yn rhinwedd cynnwys y person hwnnw ym mharagraff (4), yn arferadwy, yn unig, at y diben o gael gwybodaeth mewn perthynas â pherson penodol a ddynodir (wrth ei enw neu ei ddisgrifiad) gan y swyddog.

(6) Ni chaiff swyddog awdurdodedig, wrth arfer y pwerau hynny, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddarparu unrhyw wybodaeth, yn rhinwedd cynnwys y person hwnnw ym mharagraff (4),

(**7**) 1972 p.65.
(**8**) 1986 p.44.
(**9**) Mewnosodwyd adran 7A gan adran 6(1) o Ddeddf Nwy 1995 (p.45). Diwygiwyd is-adran (1) yn ddiweddarach gan adran 3(2) o Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p.27).
(**10**) 1989 p.29.

onid yw'n ymddangos i'r swyddog hwnnw fod seiliau rhesymol dros gredu bod y person dynodedig y mae'r gofyniad yn ymwneud ag ef—

(a) yn berson sydd wedi cyflawni, yn cyflawni, neu'n bwriadu cyflawni trosedd treth gyngor;

(b) yn berson sy'n aelod o deulu person sy'n dod o fewn is-baragraff (a); neu

(c) os yw'r person sy'n dod o fewn is-baragraff (a) mewn priodas aml-gymar, unrhyw bartner i'r person hwnnw.

(7) Ni ellir cyflawni rhwymedigaeth person i ddarparu gwybodaeth yn unol â hysbysiad o dan y rheoliad hwn, ac eithrio drwy ddarparu'r wybodaeth honno o fewn y cyfryw amser rhesymol ac yn y cyfryw ffurf a bennir yn yr hysbysiad, i'r swyddog awdurdodedig—

(a) a enwyd gan, neu'n unol â thelerau'r hysbysiad; neu

(b) a enwyd, ar ôl rhoi'r hysbysiad, mewn hysbysiad ysgrifenedig diweddarach a roddwyd gan y swyddog awdurdodedig a osododd y gofyniad gwreiddiol neu gan swyddog awdurdodedig arall.

(8) Mae pŵer swyddog awdurdodedig i wneud darparu gwybodaeth yn ofynnol o dan y rheoliad hwn yn cynnwys pŵer i wneud dangos ac ildio meddiant o unrhyw ddogfennau yn ofynnol sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir neu a ddisgrifir yn yr hysbysiad sy'n gosod y gofyniad, a phan fo angen, ei gwneud yn ofynnol creu'r cyfryw ddogfennau, neu gopïau neu ddyfyniadau ohonynt.

(9) O dan y rheoliad hwn, ni cheir ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn darparu—

(a) unrhyw wybodaeth (boed ar ffurf dogfen ai peidio) sy'n tueddu i argyhuddo'r person hwnnw, neu, yn achos person priod neu berson sy'n bartner sifil, priod neu bartner sifil y person hwnnw; neu

(b) unrhyw wybodaeth (boed ar ffurf dogfen ai peidio) y byddai hawliad o fraint broffesiynol gyfreithiol mewn perthynas â hi yn debygol o lwyddo mewn unrhyw achos llys.

(10) Mae'r pwerau a roddir gan y rheoliad hwn yn arferadwy mewn perthynas â phersonau sy'n dal swydd o dan y Goron a phersonau yng ngwasanaeth y Goron, fel y maent yn arferadwy mewn perthynas â phersonau eraill.

(11) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "banc" ("*bank*") yw—

(a) person sydd â chaniatâd o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000(**11**) i dderbyn adneuon;

(b) ffyrm AEE, yn yr ystyr a roddir i "EEA firm" o'r math a grybwyllir ym mharagraff 5(b) o Atodlen 3 i'r Ddeddf honno(**12**), sydd â chaniatâd o dan baragraff 15 o'r Atodlen honno(**13**) (o ganlyniad i fod yn gymwys am awdurdodiad o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno(**14**)) i dderbyn adneuon neu arian ad-daladwy arall gan y cyhoedd; neu

(c) person nad oes arno angen caniatâd o dan y Ddeddf honno i dderbyn adneuon, yng nghwrs busnes y person hwnnw yn y Deyrnas Unedig;

mae "credyd" ("*credit*") yn cynnwys benthyciad ariannol neu unrhyw ffurf o ymgymhwysiad ariannol, gan gynnwys newid siec am arian;

mae i "partner" yr ystyr a roddir i "partner" yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig;

mae i "teulu" yr ystyr a roddir i "family" yn rheoliad 6 o'r Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig;

(**11**) 2000 p.8.
(**12**) Amnewidiwyd is-baragraff (b) gan reoliad 29 o O.S. 2006/3221 a pharagraff 2 o Atodlen 3 i'r offeryn hwnnw.
(**13**) Diwygiwyd is-baragraff (1) o baragraff 15 gan O.S. 2007/3253. Nid yw'r diwygiadau eraill a wnaed i baragraff 15 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**14**) Mewnosodwyd is-baragraff (9) o baragraff 12 gan O.S. 2012/1906. Nid yw diwygiadau eraill a wnaed i baragraff 12 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.